Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Bro Cernyw
Llangernyw
Abergele
Conwy
LL22 8PP

13/04/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Mawrth 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Bro Cernyw yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau bod athrawon yn herio disgyblion hyd eithaf eu gallu, ac yn darparu cyfleoedd cyson iddynt ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn effeithiol

- Mae'r pennaeth yn trefnu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol addas i athrawon. Mae hyn yn dyfnhau eu dealltwriaeth o ddulliau addysgu effeithiol ac yn eu cefnogi i ddiwallu anghenion dysgu'r disgyblion yn briodol.
- Ar y cyfan, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu diddorol, sy'n arfogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gwblhau tasgau yn fwyfwy annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am eu profiadau dysgu ac yn ymwybodol o bwysigrwydd herio eu hunain wrth gwblhau gweithgareddau 'dewis doeth'.
- Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau wedi eu graddoli o ran her. Mae llawer o ddisgyblion yn trafod sut maent yn dewis y gweithgaredd sydd fwyaf priodol ar eu cyfer yn aeddfed. Er hyn, nid yw priodoldeb yr ychydig o weithgareddau bob amser yn cefnogi disgyblion i gyflawni hyd orau o ran eu cam datblygu bob tro.
- Yn yr arfer orau, mae athrawon yn defnyddio dulliau holi effeithiol i gefnogi a herio dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i werthuso a gwella eu gwaith yn effeithiol.

- Trwy gynllunio prosiectau creadigol, mae staff yn dechrau darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau annibynnol ar draws y meysydd dysgu. Mae'r pennaeth yn ymwybodol o'r angen i leihau'r defnydd o daflenni parod, sydd, ar brydiau, yn llesteirio disgyblion rhag gwneud cynnydd cyson yn eu medrau.

## Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm

- Mae gan y pennaeth weledigaeth briodol ar gyfer datblygu'r agwedd hon. Mae'n sicrhau ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol sy'n cefnogi dealltwriaeth staff o sut i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion yn briodol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi arferion effeithiol sydd, yn eu tro, yn cael eu rhannu'n bwrpasol gyda staff.
- Mae athrawon yn darparu gweithgareddau priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu'n gyson dros amser. Mae'r disgyblion ieuengaf yn caffael medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyfuno seiniau llythrennau i ysgrifennu geiriau syml. Mae'r disgyblion mwy abl yn ysgrifennu brawddegau syml gyda lefel dda o gywirdeb. Wrth symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn ysgrifennu'n fwy estynedig ac maent yn gwneud dewisiadau dychmygus o eirfa ac yn defnyddio technegau effeithiol, fel odl, i ddal sylw'r darllenydd yn bwrpasol.
- Darperir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm ac mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n bwrpasol mewn cyd-destunau diddorol ac ysgogol.
- Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth ar eu gwaith ysgrifenedig gan athrawon ac yn ei wella 'n fwriadus. Mae arweinwyr yn ymwybodol bod yr agwedd hon yn parhau i ddatblygu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6622148

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol